

Tasg 2

Dyma'r chwedl unwaith eto, ond y tro hwn mae'r brawddegau yn y drefn anghywir. Gosodwch nhw yn y drefn gywir.

Yna, darllenwch y darn eto er mwyn gwirio trefn y brawddegau.

	Y drefn gywir: rhif y brawddegau
1. Daeth y mab i lawr. Eisteddodd y melinydd ar gefn yr asyn ac i ffwrdd â nhw eto.	2
2. Un tro, roedd melinydd a'i fab yn mynd â'u hasyn i'r ffair i'w werthu.	
3. Cafodd yr asyn fraw. Ciciodd a chiciodd nes datod y clymau a syrthiodd i mewn i'r afon a marw.	
4. Yna, clywon nhw rywun arall yn gweiddi, "Sut gallwch chi eistedd fan'na ar gefn yr asyn a gadael i'ch mab gerdded wrth eich ochr." Felly, neidiodd y mab i fyny ac i ffwrdd â'r asyn, gyda'r ddau ar ei gefn.	
5. Felly, daethon nhw i lawr o gefn yr asyn a chlymon nhw'r asyn yn sownd wrth bolyn i'w gario i'r dref.	
6. Clywon nhw rywun yn gweiddi, "Pam rydych chi'n cerdded? Ewch ar gefn yr asyn!"	
7. Dywedodd y melinydd wrth ei fab am eistedd ar gefn yr asyn ac i ffwrdd â nhw.	
8. Yna, clywon nhw rywun arall yn gweiddi, "Druan o'r asyn! Mae'n cario gormod o bwysau! Byddai'n well i chi ei gario fo na'i fod o'n eich cario chi!"	
9. Ar ôl ychydig, clywon nhw rywun arall yn gweiddi, "Tyrd i lawr a gad i dy dad eistedd ar yr asyn!"	
10. Dechreuodd y bobl chwerthin a chwerthin wrth weld y melinydd a'i fab yn cario'r asyn.	